**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

24 Mai 2024

**Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Adroddiad cynnydd ar ddysgu a rennir ar gyfer Fforwm Iwerddon-Cymru 2024**

Annwyl Vaughan

Ddiwedd y llynedd, rhoddodd y cyn-Brif Weinidog **gopi o adroddiad** inni a oedd yn ymwneud â secondiad swyddog o Lywodraeth Cymru i Adran Materion Tramor Llywodraeth Iwerddon. Roedd yr adroddiad yn nodi'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i'r cynllun hwnnw. Fel y gwyddoch, roedd y secondiad hwn yn ymrwymiad a gofnodwyd yn y **Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd** rhwng llywodraethau Cymru ac Iwerddon.

Mae'r adroddiad uchod yn nodi bod y secondiad wedi llwyddo i ehangu’r ymgysylltiad rhwng swyddogion Llywodraethau Cymru ac Iwerddon. Mae'n cynnig ymhellach y bydd gwaith ar y cyd yn cael ei wneud dros y flwyddyn i ddod mewn nifer o feysydd polisi. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y bydd adroddiad cynnydd yn cael ei baratoi mewn da bryd ar gyfer Fforwm Iwerddon-Cymru yn 2024.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu copi o'r adroddiad cynnydd hwn gyda'r Pwyllgor maes o law. Byddai hyn yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o gynnydd a wnaed yn y maes hwn, a byddai'n cyd-fynd ag argymhellion ein hadroddiad i wella tryloywder, gan gynnwys y modd y mae'n ymwneud â Fforwm Iwerddon-Cymru.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad parhaus â gwaith y Pwyllgor wrth hyrwyddo'r berthynas unigryw rhwng ein dwy wlad.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.